



Care & Repair
Gofal a Thrwsio

Cartrefi lach ar gyfer Pobl Hŷn

2018 -

2023



Gwella Cartrefi, Newid Bywydau

Bob dydd yng Nghymru mae 137 o bobl hŷn yn troi at Gofal a Thrwsio am help

“

Does gennych chi ddim syniad faint o dawelwch mae gwybod bod Gofal a Thrwsio yno i helpu yn ei roi i chi. Mae'n wasanaeth hanfodol ar gyfer pobl hŷn.

“

Mae fy nghartref yn awr yn hyfryd a chynnes diolch i Gofal a Thrwsio. Dydi o ddim wedi teimlo fel hyn ers blynyddoedd.

“

O'r diwedd rwyf wedi dod o hyd i gorff y gallaf ddibynnu arno pan fyddaf angen cefnogaeth. Mae bron fel cael ffrind ar ben arall y ffôn bob tro rwy'n poeni am rywbeth.

Ein Gweledigaeth:

Dymunwn weld Cymru ble gall pobl hŷn fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch.

Beth ydyn ni'n wneud a phwy sydd ar eu hennill?

Gofal a Thrwsio yw **Eiriolwr dros Dai Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy na 30 mlynedd, rydym wedi darparu, datblygu ac arloesi gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.

Y rhai sy'n elwa mwyaf yw preswylwyr-berchnogion a thenantiaid preifat. Cawn ein hariannu trwy grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi pobl dros 60 oed, ond mae cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol, a rhai trefniadau comisiynu a chyllido lleol, yn ein galluogi i helpu pobl dros 50 oed, pobl iau anabl, a rhai tenantiaid tai cymdeithasol.

Mae ein is-bennawd **Gwella Cartrefi, Newid Bywydau** yn disgrifio'r hyn a wnawn, yn ogystal â'r effaith a gaiff ein gwaith ar fywydau'r bobl hŷn ac anabl sy'n derbyn ein cymorth.

Mae **13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio** yn darparu gwasanaethau rheng flaen, dibynadwy, ymarferol a gwerth am arian ledled Cymru. Rydym yn darparu gweithwyr achos arbenigol, crefftwyr medrus a syrfëwyr cymwysedig sy'n cyflenwi gwaith trwsio ymarferol, y Rhaglen Addasiadau Brys, cynnal a chadw a gwelliannau i gartrefi, cynghori ar effeithlonrwydd ynni, mynediad i grantiau, codi arian a chynyddu'r niferoedd sy'n derbyn budd-dal. Rydym yn helpu i ddarparu cartrefi diogel, cynnes a hygyrch i bobl hŷn a'u galluogi i fyw'n annibynnol a gydag urddas yn eu cartrefi cyhyd ag y maen nhw'n dymuno. Mae ymddiriedaeth yn elfen allweddol o'n llwyddiant dros y blynyddoedd, ac yn rheswm ein hod yn cael ein gwerthfawrogi gymaint fel gwasanaeth.

Mae **Care & Repair Cymru** yn ganolog i'r gwaith o arwain a chryfhau gwasanaethau. Rydym yn cynrychioli Asiantaethau Gofal a Thrwsio, sicrhau ansawdd a chysondeb, arloesi syniadau newydd, monitro a gwerthuso canlyniadau, codi ymwybyddiaeth a thyfu hunaniaeth brand. Rydym yn hyrwyddo anghenion tai pobl hŷn, cysylltu Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, helpu i ddylanwadu ar bolisi llywodraeth da ar gyfer pobl hŷn, dadlau'r achos dros ariannu cyhoeddus, a helpu i ysgogi adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.

Y problemau a wynebwn


Wrth i boblogaeth Cymru heneiddio, wynebwn heriau digyffelyb wrth gwrdd ag anghenion cymdeithas sy'n mynd yn hŷn. Gwelodd yr hinsawdd economaidd ers 2010 leihad enfawr mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig gan gynnwys y trydydd sector ac elusennau fel ni, a gall y blynyddoedd 2018-2023 weld rhagor o doriadau i wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan straen ac yn methu ymdopi â'r galw. Bydd angen cynyddol am wasanaethau i bobl hŷn, ond llai o adnoddau i'w darparu wrth i'r pwysau ar lechyd a Gofal Cymdeithasol barhau i gynyddu.

Yng Nghymru, mae mwy na 80% o bobl hŷn yn breswylwyr berchnogion, ac wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn, mae'r rhan fwyaf eisiau dal i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Mae cytundeb cyffredinol hefyd fod y lle mae rhywun yn byw yn cael effaith enfawr ar ein hiechyd, ein lles ac ansawdd ein bywydau. Rhaid i'n hamcanion sylfaenol gynnwys sicrhau fod darpariaeth tai prif ffrwd cwrdd ag anghenion pobl hŷn a'n bod yn mynd i'r afael â'r cartrefi anaddas, sy'n oer ac yn dadfeilio ac yn gyfrifol am atal annibyniaeth a lleihau ansawdd bywyd a lles y rhai sy'n byw ynddyn nhw. Mae'r gwaith a wnawn i wella tai sy'n oer, llaith, peryglus, anhygyrch ac anaddas yn bwysicach nag y bu erioed.

Wrth fynd i'r afael â phroblemau tai a helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, mae ein gwasanaethau'n cysylltu tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein gwasanaethau'n atal neu leihau'r galw am wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd (ymweliadau meddygon teulu, galwadau gofal annisgwyl a galwadau ambiwlans). Yn ogystal â gwella ansawdd bywyd i ddegau o filoedd o bobl hŷn bob blwyddyn, mae Gofal a Thrwsio hefyd yn hefyd yn lleihau'r galw ac arbed arian i wasanaethau statudol Cymru sydd dan fwy a mwy o straeon.





Er gwaetha'n gwaith, mae yna angen sylweddol sydd heb ei fodloni, ac mae miloedd lawer o bobl hŷn na allwn eu helpu oherwydd adnoddau annigonol. Os na weithredwn ni, bydd y bobl yma'n dioddef amodau tai gwael. Maen nhw mewn perygl o gwmpo gan arwain at anafiadau difrifol, tloidi ynni a marw'n gynamserol yn ystod y gaeaf, ac anallu i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi neu gydag urddas. Bydd sefyllfaoedd eraill fel lleithder yn codi, offer nwy anniogel ac electroneg peryglus yn amharu ar eu hiechyd a'u lles.

Mae **10%** o'r bobl a helpwn dros 90 mlwydd oed



Ein huchelgeisiau a'n dyheadau

Dydyn ni ddim yn derbyn y dylai unrhyw berson hŷn:

-  Fyw mewn tŷ anaddas ar gyfer eu hanghenion
-  Marw yn ystod misoedd y gaeaf am eu bod yn byw mewn cartref oer
-  Byw mewn tŷ sy'n beryglus neu'n anaddas i fyw ynddo, neu
-  Methu cael addasiadau angenrheidiol, neu orfod aros yn rhy hir amdanynt, i'w galluogi i fyw'n annibynnol gydag urddas yn eu cartrefi eu hunain.


Yn greiddiol, byddwn yn mynd i'r afael â'r holl broblemau hyn a sicrhau fod pob person hŷn a gynorthwywn yn hawlio'r cymorth lles sy'n ddyledus iddyn nhw.

Byddwn yn helpu pobl i gynllunio'n well ar gyfer ble byddan nhw'n byw pan fyddan nhw'n hŷn. Pan na all pobl hŷn aros yn yr un lle, neu pan fyddan nhw eisiau symud, byddwn yn eu helpu i ddarganfod tŷ addas ar gyfer eu blynyddoedd hwyrach ac ymddeoliad, a'u helpu i symud pan fydd angen.

Gan ddibynnu ar adnoddau, ein dyhead yw helpu cynifer ag sy'n bosib o bobl i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch.

I wneud hyn dros y 5 mlynedd nesaf, byddwn yn anelu at ehangu ein gwasanaethau a'n cymorth ledled Cymru a gweithio i gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

Am bob £1 a werir ar ein Rhaglen Addasiadau Brys, caiff £7.50 eu harbed ar gyfer cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol



AMCAN STRATEGOL 1

Tyfu ein gwasanaethau presennol sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

AMCAN STRATEGOL 2

Ehangu a datblygu gwasanaethau gwybodaeth a chymorth newydd sy'n cynyddu gwybodaeth a dewis yn-ghylch opsiynau tai wrth i bobl dyfu'n hŷn, a darparu gwasanaeth "Cymorth i Symud" os mai dyna'u dymuniad.

AMCAN STRATEGOL 3

Gweithio mewn partneriaeth agos gyda Llywodraeth Cymru, gan wella'r ffordd yr ydym yn defnyddio'n harbenigedd, ymchwil, data a gwerthuso i hyrwyddo achos pobl hŷn o ran anghenion tai, gwarchod ein cyllid grant, cryfhau'n hachos dros gefnogaeth, a dylanwadu ar bolisi tai cenedlaethol gwell i bobl hŷn.



Dywed dros 90%

o'r bobl hŷn a helpwn fod ansawdd eu bywyd wedi gwella

AMCAN STRATEGOL 4

Gwella ein hymgysylltu gyda Byrddau Iechyd Lleol, Llywodraeth Leol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, fel y gallwn ymgysylltu'n llawn gyda'r agenda integreiddio, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gofal iechyd darbodus, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru Iachach, gwneud achos grymus dros lechyd a chyllid arall i gefnogi Adre o'r Ysbyty, presgripsiynu cymdeithasol, a rhaglenni rhagweithiol fel Ymdopi'n Well.

AMCAN STRATEGOL 5

Bod yn ddychmygus a strategol, gwranddo ar leisiau pobl hŷn, a bachu cyfleoedd i wella gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau hŷn y presennol a'r dyfodol trwy groesawu'r oes ddigidol, technoleg newydd a datrysiadau newydd i gwrdd ag anghenion tai, a hyrwyddo datblygiad cymunedau oed-gyfeillgar.

AMCAN STRATEGOL 6

Bod yn gryfach, gwytnach a mwy cynaliadwy a helpu mwy o bobl trwy ychwanegu at y cyllid presennol gyda mwy o ariannu gan fentrau cymdeithasol, gan ddod yn elusen genedlaethol fawr gydnabyddedig yn cael ei chefnogi gan gyfraniadau unigol, rhoddion gwaddol, cynnydd mewn cyllid Ymddiriedolaeth, a chefnogaeth gorfforaethol.

AMCAN STRATEGOL 7

Ymgeisio am **grantiau cenedlaethol mawr a chontractau** sy'n cefnogi ein huchelgais i helpu mwy o bob hŷn i fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a hygyrch gan weithio mewn partneriaeth gydag eraill pan fydd hynny'n cynnig y ffordd orau i ddarparu gwasanaethau a'u cyflenwi yn gost effeithiol.

AMCAN STRATEGOL 8

Bod yn sefydliadau sy'n cael eu **rheoli'n dda**, gyda staff medrus a dyfeisgar, diwylliant o ddysgu a gwella, gweithredu hyfforddiant achrededig a sicrwydd ansawdd, a chydweithio fel Mudiad cyfan i gefnogi gwasanaethau ansawdd uchel ledled Cymru.

O Ddyhead i Weithredu

Credwn yn gryf mewn mynd i'r afael â'r problemau tai a wynebir gan y nifer cynyddol o bobl hŷn a'n gweledigaeth am Gymru ble gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a hygyrch.

Rydyn ni eisiau'r weledigaeth a'r uchelgais a nodir yn y Cynllun i'n helpu ar y daith. Byddwn yn datblygu cynlluniau blynyddol manwl a thargedau mesuradwy i gyflawni ein gweledigaeth a phob un o'r amcanion strategol.

Byddwn yn datblygu a gweithredu'r cynlluniau gweithredu hyn, a monitro pob un gan gydweithio fel Mudiad a gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phob un o'n partneriaid mewn Cymdeithasau Tai, Llywodraeth Leol, Iechyd a'r Trydydd Sector.



Rydym yn helpu dros
40,000
o bobl hŷn bob blwyddyn



www.careandrepair.org.uk

ddod o hyd i ni ar



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government